Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

Annwyl Bawb

E-FWLETIN 30 – 13 AWST 2009

Tawel yw hi yma yn ystod mis Awst ond mae yna rai pethau ymlaen. Nodir manylion y rheiny isod, gan gynnwys rhaghysbys ar gyfer rhai digwyddiadau y mae Morlan yn eu trefnu ym mis Medi.

DAWNS TE
2.00-4.00, dydd Sadwrn, 15 Awst
Trefnwyd gan Ymgyrch Ymchwil i Arthritis i ddathlu 40 mlynedd sefydlu cangen Aberystwyth o'r mudiad. Pris mynediad yw £3.

SESIYNAU GALW I MEWN AR GYFER DARPAR WIRFODDOLWYR
10.00-4.00, dydd Iau, 27 Awst
CAVO sy'n trefnu'r sesiynau hyn ar gyfer pobl sy'n chwilio am gyfleoedd gwirfoddoli neu fudiadau sy'n defnyddio gwirfoddolwyr ac angen help recriwtio gwirfoddolwyr. Byddant yn cael eu cynnal yma ddwywaith y mis tan ddiwedd y flwyddyn.

BYW AR Y TIR
Noder: mae'r arddangosfa ddwyieithog hon sy'n rhoi golwg ar hanes ffermio wedi'i gohirio tan fis Ionawr 2010.

THE DAY AFTER PEACE
7.00, nos Iau, 17 Medi
Ffilm ddogfen yw hon sy'n croniclo ymdrechion y gwneuthurwr ffilmiau Jeremy Gilley dros gyfnod o 10 mlynedd i sefydlu Diwrnod Heddwch ar 21 Medi. Trefnir y noson ar y cyd gan Morlan, Côr Gobaith (côr heddwch lleol) a'r gangen leol o Amnest Rhyngwladol. Mynediad trwy gyfraniad, elw at *Peace One Day*.

CYNGERDD CÔR GOBAITH
7.00, nos Lun, 21 Medi
Noson o gân i nodi Diwrnod Heddwch Rhyngwladol. Bydd Côr Gobaith yn canu caneuon i gyd-fynd â'r ffilm *The Day after Peace*. Bydd stondinau gan amryw o fudiadau yno a bydd lluniaeth ysgafn ar gael. Trefnir y noson ar y cyd gan Morlan, Côr Gobaith a'r gangen leol o Amnest Rhyngwladol. Mynediad trwy gyfraniad, elw at Amnest Rhyngwladol a *Médecins Sans Frontières*.

Cofion gorau

Carol Jenkins
Rheolwr